William Bompas: 1834–1906

Ffrind yr Indiaid Cochion

Dyfalbarhad / ymddiriedaeth

Ydych chi'n hoffi gwylio ffilmiau am gowbois ac Indiaid? Mae'r stori hon yn sôn am un oedd yn ffrind i'r Indiaid Cochion. Doedd William Bompas ddim yn un o'r Indiaid. Yn Llundain y cafodd ei eni.

Cafodd William ei ddysgu gan ei fam a'i dad. Doedd o ddim yn mynd i'r ysgol bob dydd. Pan oedd yn 10 oed bu farw ei dad. Bu'n rhaid iddo fynd i weithio er mwyn cael arian i fyw. Bu'n wael am gyfnod ac yn ystod yr amser hwn fe ddysgodd dair iaith newydd. Roedd hefyd yn hoff iawn o ddarllen y Beibl.

Ar ôl iddo dyfu i fyny, aeth i'r coleg i astudio i fod yn offeiriad. Roedd wedi sôn droeon wrth ei ffrindiau y byddai'n hoffi sôn am Iesu Grist wrth bobl tu allan i Brydain. Clywodd fod angen rhywun i fod yn offeiriad yng ngwlad yr Indiaid Cochion.

Ymhen dim amser, roedd William Bompas ar ei ffordd i wlad yr Indiaid Cochion. Roedd hi'n daith hir, ar drên, llong, canŵ a sled. Doedd yr Indiaid ddim yn hoff o bobl wynion. Y peth cyntaf wnaeth William oedd dysgu iaith yr Indiaid. Ar ôl iddo ddysgu'r iaith, roedd yn barod wedyn i siarad â'r Indiaid yn eu hiaith eu hunain. Byddai'n ymweld â'u wigwamiau gan sôn am Iesu Grist. Ar y dechrau, roedd yr Indiaid yn amheus iawn ohono. Wedi'r cwbl, dyn gwyn oedd ef yn eu plith.

Yn ystod y dydd byddai'r Indiaid yn gweithio'n galed iawn. Byddai'r dynion a'r bechgyn yn hela i gael bwyd. Yn gynnar yn y bore fe fydden nhw'n cerdded o gwmpas y wlad. Byddai rhai yn hela anifeiliaid fel y ceirw a'r cwningod. Byddai eraill yn pysgota yn y llynnoedd a'r afonydd. Gwaith y merched a'r genethod oedd coginio bwyd a thrin croen y ceirw i wneud dillad. Byddai William yn treulio'r dydd efo rhai o'r dynion yn hela yn y mynyddoedd. Gyda'r nos, wrth danllwyth o dân byddai'n dweud hanesion am Iesu Grist wrthyn nhw. Byddai'r plant yn gofyn am glywed rhai o'r storïau dro ar ôl tro.

Ar ôl dod i adnabod yr Indiaid yn dda, byddai'n symud ar ei daith o le i le. Yn ystod un gaeaf fe gerddodd dros fil o filltiroedd o

un ardal i'r llall yn sôn am Iesu Grist. Roedd llawer iawn o'r Indiaid wedi dod yn ffrindiau efo William Bompas. Ar ôl amser hir yng nghwmni'r Indiaid, fe ddaeth William yn ôl i Loegr. Tra oedd yn Lloegr fe gafodd gyfle i drosi Efengyl Marc a rhannau eraill o'r Beibl i ieithoedd yr Indiaid.

Pan hwyliodd yn ôl, doedd o ddim ar ben ei hun y tro hwn. Aeth â'i wraig Charlotte efo fo. Bu'r ddau wrthi'n ddiwyd yn gweithio ymysg yr Indiaid Cochion. Ar rai cyfnodau roedd y bwyd yn brin. Byddai William a Charlotte yn helpu'r Indiaid i hela am fwyd.

Agorodd Charlotte ganolfan yn yr ardal i ddysgu'r plant. Hon oedd yr ysgol gyntaf yn y fro. Dechreuodd William ddysgu'r dynion sut i ffermio er mwyn tyfu cnydau. Felly, roedd y dynion yn gallu ffermio a hela i gael bwyd. Am 40 o flynyddoedd bu William a Charlotte, ei wraig, yn helpu'r Indiaid Cochion a'u dysgu am Iesu Grist.

"...gadewch i ninnau hefyd...redeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu..."
Hebreaid 12:1-2

O Dduw,
helpa fi i ymdrechu'n galed,
heb roi i fyny.
A phan fydda i'n methu,
wnei di roi help i mi?
Amen.

Beth rydych chi am geisio ei gyflawni y flwyddyn hon?
Meddyliwch am bethau, nid pethau amhosibl, dysgu sgil newydd neu wneud yn well yn eich gwaith ysgol. Ydych chi y math o berson sy'n rhoi i fyny'n hawdd?

William Bompas: 1834–1906